Syniadau A.G.

Tymor yr Haf 2006 *Pris£1.00*

Susan Murrell, Hen Golwyn

Defodau Newid Byd - Priodas

Cristnogaeth yw prif ffocws pob Addysg Grefyddol, ond mae yn ddiddorol edrych ar sut mae'r crefyddau eraill yn dathlu Priodas.

Cristnogaeth

Mae Cristnogion yn dymuno cael bendith Duw ar eu priodas, felly mae'r seremoni yn cymryd lle yn yr eglwys.

Yn draddodiadol, mae'r briodferch yn gwisgo gwisg wen gyda gorchudd (veil) dros ei hwyneb. Mae'n cario tusw o flodau; mae ganddi hefyd forwynion priodas - pob un yn gwisgo gwisgoedd tebyg a hwythau hefyd yn cario tusw o flodau. Gall y briodferch hefyd gael 'gwas' - fel arfer - bachgen bach.

Bydd y priodfab yn gwisgo siwt smart - bydd ganddo yntau was priodas, fydd yn ei gefnogi, ac fel arfer, yn edrych ar ôl y modrwyon.

Ei thad fydd yn arwain y briodferch i'r eglwys fel arfer, a'i chyflwyno i'w gwr. Bydd y cwpl yn cyfnewid modrwyon ac yn gwneud addunedau i'w gilydd yn gyhoeddus. Bydd pawb yn canu emynau, gyda gweddïau ac efallai anerchiad fer ar ystyr priodas yn ôl dysgeidiaeth y Beibl. Fel mae'r seremoni yn dod i ben, bydd y cwpl yn mynd i'r festri i arwyddo y

gofrestr priodas, ac yna yn dod allan o'r eglwys yn wr a gwraig.
Daw'r teulu o'u cwmpas i dynnu lluniau a thaflu conffeti.

Bydd y teulu wedi gwahodd gwesteion i ddod i'r briodas ac i fwynhau pryd o fwyd gyda'r cwpl. Dyma y 'Wledd Briodas' neu y 'Brecwast Priodas'. Bydd cacen briodas arbennig yn y wledd (weithiau yn dair gris) - torrir hon yn y wledd briodas.

Bydd teulu a chyfeillion yn rhoi anrhegion neu arian i'r cwpl, i'w helpu i sefydlu cartref newydd. Yn aml, anfonir darn bach o'r gacen priodas i ffrindiau nad oedd yn bresennol.

(Weithiau, cedwir y rhan uchaf o'r gacen ar gyfer bedydd eu plentyn cyntaf)
Yn draddodiadol, bydd y cwpl yn mynd i ffwrdd ar wyliau gyda'i gilydd dyma y 'Mis Mêl

Bwdhaeth

Mae priodas a bywyd teuluol yn bwysig iawn i'r Bwdhïaid, ond nid oes seremoni grefyddol i ddathlu priodas. Fel arfer, priodir y pâr ifanc mewn Swyddfa Gofrestru, yna ânt i'r fynachlog i offrymu bwyd a gofyn am fendith i Sangha (cymuned grefyddol) ar eu priodas.

Hindwaeth

Fel arfer, cynhelir y seremoni yng nghartref y briodferch neu yn y 'mandir'. Bydd y briodferch yn gwisgo sari coch, gyda phatrymau mendhi wedi eu paentio ar ei dwylo a'i thraed. Bydd y priodfab yn gwisgo garlant o flodau, gyda gorchudd (veil) o daseli. Y Brahmin fydd yn arwain y seremoni ac yn adrodd adnodau allan o'r Vedas.

Clymir dwylo y cwpl gyda chortyn. Byddant yn cymryd saith cam o gwmpas y tân sanctaidd - y rhain yn cynrychioli bwyd, nerth, cyfoeth, lwc, plant, tymhorau a chyfeillgarwch.

Iddewiaeth

Yn y seremoni priodas Iddewig, delir y 'Huppah' (canopy) uwchben y cwpl - mae hyn yn cynrychioli eu cartref newydd gyda'i gilydd. Byddant yn cydnabod eu cyfrifoldeb cyfreithiol, yna bydd y priodfab yn rhoi modrwy i'r briodferch.

Adroddir gweddïau , darllenir y Ketubah (cytundeb priodasol), a chenir y Sheva Berachot (saith bendith). ar derfyn y seremoni, bydd y priodfab yn yn torri gwydr gyda'i droed a phawb yn gweiddi 'MUZEL TOV' (Lwc Dda).

Islam

Mewn sawl gwlad Foslemaidd, bydd pobl yn priodi wedi cytundeb rhwng y teuluoedd, yn hytrach na'u bod wedi syrthio mewn cariad â'i gilydd. Derbynnir, o hyd, briodasau sydd wedi eu trefnu fel hyn. Mae'r cytundeb priodas yn bod rhwng tad y briodferch a'r priodfab. Bydd y priodfab yn addo gofalu am a gwarchod ei wraig.

Cynhelir y briodas Fwslemaidd yn y cartref neu yn y Mosg. Bydd y cwpl yn rhoi eu caniatâd i'r briodas gymryd lle gerbron dau dyst. Yn ystod y seremoni ceir darlleniad o'r Qur'an. Mae'r Aqd Nikah (cytundeb priodas)

yn cael ei lefaru, yn ogystal â bod yn ysgrifenedig.

Bydd y priodfab a'r briodferch yn arwyddo 3 copi o hwn. Rhydd y priodfab y mahr (swm o arian) , eiddo, neu anrheg gwerthfawr arall i'r briodferch, fydd yn eiddo iddi hi am weddill ei hoes.

Sikhaeth

Yn y grefydd Sikhaidd, mae dynion a merched yn gyfartal.
Bydd dynion y ddau deulu yn cyfarfod yn y Gurdwara ac yn cyfnewid anrhegion cyn ymuno yn y gwasanaeth.
Bydd y priodfab yn eistedd ar y llawr o flaen y Guru Granth Sahib, a phawb yn canu emynau.
Rhydd tad y briodferch garlant o flodau am wddw y priodfab a'r briodferch ac ar y llyfr sanctaidd.
Fel arfer, bydd y briodferch yn gwisgo yr wisg draddodiadol - coch ac aur, gyda sgarff am ei phen.
Sikh fydd yn gweinyddu.
Bydd y priodfab a'r briodferch yn ymgrymu o flaen y Guru Granth Sahib i ddangos eu bod yn deall beth yw eu dyletswyddau.
Yna bydd tad y briodferch yn uno y ddau drwy glymu sgarff y ddau gyda'i gilydd. Bydd y cwpl yn cerdded o amgylch y Guru Granth Sahib bedair gwaith.
Rhydd mam y briodferch felysion i'w mab-yng-nghyfraith newydd

ADNODDAU gan MAGC (Mudiad Addysg Grefyddol Cymru)
Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl gopiau o 'Syniadau AG' ar gael.
CYHOEDDIADAU**:**
Cynradd: Adegau Arbennig
Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn
Iesu - Ei bwysigrwydd i gredinwyr;
Mannau Arbennig – Eu harwyddocad i gredinwyr
Uwchradd: Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chymdeithasol
What the Welsh Churches say on moral and social issues
Cyffredinol: More than Just RE (CEMW Annual Lectures)
Disgownt ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr
Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH SY20 9EX
(Tel/Ffacs: 01654-761697) e bost: Sali@patshyn.fsnet.co.uk

© MAGC 2006